# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 13 IONAWR 2015 am 2.00 o'r gloch y prynhawn | | TUESDAY,13 JANUARY, 2015 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL GWREIDDIOL/ORIGINAL INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G. O. Jones, (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

Cynghorydd R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Peter Rogers

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG GYDA PHLEIDLAIS PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS WITH A RIGHT TO VOTE WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **DWEDDARIAD Y CADEIRYDD AC AELODAU**

Derbyn diweddariad gan y Cadeirydd ac Aelodau.

3 **BLAEN RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno copi o Flaen Rhaglen Waith y Pwyllgor.

4 **COFNODION CYFARFOD 24 TACHWEDD, 2014** (Tudalennau 3 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2014.

5 **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH ADDYSG**

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Addysg.
*(Adroddiad i ddilyn)*

6 **ADRODDIAD DADANSODDOL: ANSAWDD GWAITH ASESU CRAIDD - GWASANAETHAU PLANT** (Tudalennau 9 - 22)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant.

7 **PANELAU CANLYNIAD SGRIWTINI**

Derbyn diweddariad ar lafar gan y Cadeirydd ynglyn ag adroddiadau drafft y Panelau Canlyniad Sgriwtini mewn perthynas â’r canlynol:

- Rheoli Absenoldeb Salwch
- Arbedion Effeithlonrwydd 2014/15

# (SUMMARY to date) CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE FORWARD WORK PROGRAMME 2014-15

| No of ITEMS | QUARTER 1<br>1st APR- 30th JUNE, PER ANNUM | | | | QUARTER 2<br>1st JULY- 30th SEPT p.a. | | | QUARTER 3<br>1st OCT- 31st DEC p.a. | | | | QUARTER 4<br>1st JAN - 31ST MARCH p.a. | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **APRIL 17th** 1 | May 6th & 8th | **MAY 12th** 2 | June 25 | **JULY 1st** 3 | Aug 28th | **SEPT 1st** 4 | Oct 9th | **OCT 14th** 5 | Nov 17th | **NOV 24th** 6 | Jan 7th | **JAN 13th(B)** + 21(dB) 7 | Feb 2nd 2pm | **FEB 10th** 8 | **16 APRIL** |
| 1 | Dec .of Interest | (1)Prep for **Q4**- 12th May CSC meeting. (2) Elect Chair & Vice- Chair. | DO I. | Committee Briefing meeting | DOI. | ELECTED MEMBER RECESS Prep. for **Q1** – 1st Sept CSC meeting | DOI. | Committee Briefing Meeting | DO I. | Prep. for **Q2** -24th Nov.CSC meeting | DO I. | Committee Briefing Meeting | ~~FORMAL BUDGET SCRUTINY :10xH.of.S & Informal Meeting to draft Cttee response to ExecBudget report.( Exe, 9/2/15-16/2~~) | Prep. for **Q3**. – 9th Feb CSC meeting | FORMAL BUDGET SCRUTINY :10xH.of.S & Informal Meeting to draft Cttee response to ExecBudget report.( Exe, ~~9/2/15~~-16/2) ~~SCORE CARD Q3~~ → | - |
| 2<br>3 | Chair update & FWP | | C.U + FWP | | C.U + FWP | | C.U +FWP | | C.U+ FWP | | C.U +FWP | | | | | |
| 4 | Minutes | | Minutes | | Minutes | | Minutes | | Minutes | | Minutes | | | | | |
| 5 | Annual Impt Priorities | | SCORE CARD Q4 1/1-31.3.14 | | ~~Initial discussion 2015-16 budget~~ **Provisional Out-turn Reports 1.Rev 2. Capital** | | SCORE CARD Q1 | | Annual Performance Report | | SCORE CARD Q2 | | | | | |
| 6 | Outcome Agreement 2013-16 | | ~~Service Excellence & Business Trans. P.B.~~ 6.**Corporate Parenting Cttee nomiations**. | | Social Service Annual report | | ~~Service Excellence & Business Transform-ation P. B~~ | | Establishment of a NW Regional Safeguarding Children Board | | ~~Service 1.Excellence & 2.Business Transforma-tion Programme. Boards progress report~~ | | Education Annual Report | | ~~Service Excellence & Business Transform-ation Prog-ramme. Boards~~ → | |
| 7 | Annual Education Report | | 7.***HBMU** | | ~~Corp. Risk Register~~ **2) Adult Care: Amlwch & Langefni. (3) Carreglwyd** | | **Extra Care Housing** | | **Business Case for Smarter Working** | | | | | | | |
| 8 | Education Authority Core data | | ~~Q4 Rev & C budget monitoring~~ 8.**Safeguarding children in Sch** | | 1)Service Excellence & 2) Business Transformation Programme Boards. | | Q1 Rev & Capt. budget monitoring | | | | 1. Rev & 2.Capt. Q2 budget monitoring | | | | ~~Q3 Rev & Capt. budget monitoring~~ → | |
| 9 | ***Housing Business Maintenance Unit** | | ~~Lein Amlwch~~ Member request- Lesson to be learnt, closure of B4419 Pentre Berw | | ~~Business Case for Smarter Working~~ | | ~~Business Case for Smarter Working~~ | | | | Budget proposals 2015-16 | | | | ~~Annual Equality Report~~ → | |
| | | | | | | | | | | | **PART 2** | | | | | |

# (SUMMARY to date) CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE FORWARD WORK PROGRAMME 2014-15

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | **Restricted items:>** | | | | | |
| | | | | | | | | | | | School Bus Contracts, Tenders & Charges structure | | | | | |
| | | | | | | | | | | | Llangefni Golf Course | | | | | |

**KEY:** Green = new item since committee approved their Annual FWP 2014-15, at their 17/4/14 meeting
Those crossed out = Where withdrawn by the Service(s)
Those in blue = Not withdrawn by the Service but on the decision of the SLT/Executive to put back consideration of the Budget 2015-16.

.

**NB: Member/Officer 'Service Reviews' in June & Dec, look back - While, 'Service Delivery Plans' – look forward, contain targets & performance indicators.**

**Corporate Scrutiny Outcome Panels (T&F Groups ):**

1. ~~**Heating Costs in Sheltered Housing**~~
2. **Budget Monitoring , specifically Efficiency Strategy 2014-15**
3. **Managing Absence Policy – reducing sickness absences**
4. **Disposal Of assets Policy/Procedure**
5. **Safeguarding Children – Specific case ( start new yr)**

(*docs/Scrutiny FWP 2014-15 D2.3)*

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd G.O. Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Ann Griffith, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, R. Llewelyn Jones, Peter Rogers |
| **WRTH LAW**: | Y Prif Weithredwr (o eitem 6 ymlaen)<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro<br>Pennaeth Dros Dro – Gwasanaethau Democrataidd<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol (ar gyfer eitem 12)<br>Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM) (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolydd Dros Dro ar gyfer y Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO) (ar gyfer eitemau 5 a 6)<br>Swyddog Addysg Uwchradd (JM) (ar gyfer eitem 10)<br>Swyddog Opsiynau Tai (AP) (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolydd Sgriwtini (BS)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd Alwyn Rowlands (Aelod Portffolio ar gyfer Perfformiad a'r Cynllun Corfforaethol), Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio ar gyfer Addysg), Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd, Twristiaeth a Hamdden), Y Cynghorydd Richard Dew (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff), Y Cynghorydd Trefor Ll. Hughes, Mr John R Jones (Medrwn Môn) |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD A'R AELODAU**

Adroddodd y Cadeirydd fel a ganlyn:

- Roedd y Panel Canlyniad Sgriwtini ar gyfer Absenoldeb Salwch wedi cyfarfod ar 6 a 10 Tachwedd.
- Roedd dau gyfarfod o'r Panel Arbedion Effeithlonrwydd wedi eu cynnal a rhaglennwyd cyfarfod arall ar gyfer 25 Tachwedd.
- Cafwyd rhag-gyfarfod o'r Panel Canlyniad Sgriwtini ar gyfer Cael Gwared ar Asedau ar 9 Hydref; gohiriwyd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 13 Hydref ac mae'n cael ei aildrefnu i ddyddiad ac amser i'w cadarnhau.
- Adroddodd y Cynghorydd Ann Griffith ar faterion a gafodd sylw gan y Panel Rhiantu Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 8 Medi 2014. (Cyflwynwyd y cofnodion i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 20 Hydref).
- Adroddodd y Cynghorydd Llinos Medi Huws ar drafodaethau yn y cyfarfod o'r Bwrdd Trawsnewid Addysg ar 23 Hydref lle cafwyd diweddariad ar y rhaglen moderneiddio ysgolion mewn perthynas â'r Llannau a Chaergybi a'r broses ymgynghori anstatudol ar foderneiddio ysgolion yn ne-orllewin Ynys Môn. Darparwyd ac ystyriwyd diweddariad hefyd ar berfformiad

DRAFT

yr ysgolion a chafwyd trafodaeth ar y gostyngiad yn y niferoedd sy'n hawlio prydau ysgol am ddim a'r rhesymau posib am hynny.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn a chadarnhawyd eu bod yn gywir yn amodol ar y mater a nodir isod mewn perthynas â chofnodion cyfarfod 4 Tachwedd 2014:

- 15 Hydref, 2014

- 4 Tachwedd, 2014. Penderfynwyd newid geiriad y cyngor yr oedd y Cadeirydd wedi dweud fod y Rheolydd Sgriwtini wedi ei roi mewn perthynas â'r materion a oedd yn codi mewn perthynas â'r ffaith nad oedd y cyfarfod wedi ei hysbysebu fel un cyhoeddus i ddarllen: "Yna dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod y Rheolydd Sgriwtini wedi codi'r pwynt nad oedd neb o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol oherwydd bod y cyfarfod wedi ei hysbysebu fel un lle roedd yr eitem a fyddai'n cael ei thrafod wedi ei heithrio ac y dylid gwneud ymholiad efallai mewn perthynas â gohirio'r drafodaeth er mwyn caniatáu diweddariad ar gyfer y cyhoedd a'r wasg, neu bod y Pwyllgor yn bwrw ymlaen gyda'r cyfarfod heddiw ac yn cyhoeddi ei gasgliadau."

**4 CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL AR GYFER CHWARTER 2**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor wybodaeth ynghylch perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol mewn perthynas â Rheoli Pobl, Rheolaeth Ariannol, Rheoli Perfformiad a Gwasanaeth Cwsmer ar ddiwedd Chwarter 2 2014/15 fel y cafodd ei grynhoi yn y Cerdyn Sgorio Corfforaethol.

Cyflwynwyd y Cerdyn Sgorio Corfforaethol gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Perfformiad a'r Cynllun Corfforaethol fel un a oedd yn adlewyrchu gwelliant cyffredinol yn erbyn y Dangosyddion Perfformio gyda'r eithriadau yn cael sylw yn y naratif a gyflwynwyd gyda'r Cerdyn Sgorio.

Yn y drafodaeth ddilynol ar y wybodaeth a gyflwynwyd codwyd y pwyntiau a ganlyn gan y Pwyllgor:

- Mewn perthynas â Gwasanaeth Cwsmer, cyfeiriwyd at y ffaith, yn achos gohebiaeth gyda chynghorau cymuned, nad oedd y Cyngor ond wedi ymateb 2 waith allan o 12 o fewn yr amserlen ofynnol sy'n awgrymu nad yw gwelliannau damcaniaethol yn y gwasanaeth i'r cwsmer bob amser yn cael eu gweithredu'n ymarferol. Cadarnhaodd y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd fod yr ohebiaeth dan sylw wedi ei hanfon ymlaen at y gwasanaethau perthnasol am ymateb. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y gwaith clodwiw a oedd yn cael ei wneud gan staff fel y tystiolaethir yn Nangosyddion Perfformio 1, 3 a 4 ar gyfer Gwasanaeth cwsmer ond roedd angen atgyfnerthu hynny trwy barhau i wneud gwelliannau yn y maes hwn ac mewn meysydd eraill.
- Nid oes manylion wedi eu cynnwys gyda rhai Dangosyddion Perfformiad a fyddai wedi cynorthwyo'r Pwyllgor i werthuso perfformiad e.e. Sgorau Cwsmeriaid Cudd a Dangosyddion Perfformio Addysg mewn perthynas â phresenoldeb disgyblion, gwaharddiadau a nifer y prentisiaethau a grëwyd dan y cynllun Prentisiaeth Menai. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Perfformiad y byddai'r Siarter Gwasanaeth Cwsmeriaid a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Gwaith yn cyfrannu tuag at lenwi bylchau yn y data. Esboniodd y Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes fod y cysyniad Cwsmer Cudd yn Ddangosydd newydd a bod gwaith yn cael ei wneud i sefydlu'r prosesau a fydd yn darparu sail tystiolaeth ar ei gyfer. Bydd hwn yn Ddangosydd blynyddol ac erbyn diwedd Chwarter 4 bydd y bylchau wedi eu llenwi. Wrth i'r prosesau gwasanaeth cwsmer wella bydd modd ei gynnwys yn fwy rheolaidd o fewn prosesau fel bod modd adrodd yn chwarterol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes fod prentisiaethau wedi eu creu ond bod angen i'r wybodaeth gael ei bwydo i mewn i'r system cofnodi perfformiad. Mewn perthynas â'r Dangosyddion eraill yn y maes Addysg lle na roddwyd data ar eu cyfer, dywedodd y Pennaeth Dysgu nad yw'r amserlen ar gyfer y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn cyd-fynd gyda'r amserlen sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi data ynglŷn â chanlyniadau arholiadau'r haf diwethaf. Nid yw'r holl ddata a gasglwyd hyd yma ynghylch perfformiad y llynedd wedi ei ddilysu gan Lywodraeth Cymru eto. Mae rhywfaint o'r data yn dechrau dod trwodd yn awr a bydd gwybodaeth ynghylch gwaharddiadau dros dro a pharhaol hefyd yn dechrau dod trwodd ym mis Ionawr. Fodd bynnag, cadarnhaodd

DRAFT

y Swyddog fod y sgôr o ddim yn erbyn y Dangosydd hwn yn gywir oherwydd na fu unrhyw waharddiadau o ysgolion uwchradd yn ystod y cyfnod.

- Absenoldeb data cymharol ar gyfer 2013/14 ar gyfer salwch tymor byr a thymor hir dan y pennawd Rheoli Pobl. Cadarnhaodd y Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes y bydd y wybodaeth hon ar gael yn y Cerdyn Sgorion ar gyfer Chwarter 3.
- Mynegodd y Cadeirydd bryder nad oedd y wybodaeth y gofynnwyd amdani ynglŷn â nifer y Gweithwyr Llawn Amser wedi dod i law ac nad oedd ar gael ar gyfer cyfarfod ar 10 Medi. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Perfformiad bod y wybodaeth yn cael ei chasglu a'i pharatoi ar gyfer y chwarter nesaf ac y bydd yn cael ei hanfon ymlaen i'r Cadeirydd yn y pythefnos nesaf.
- Dywedodd Aelod ei bod wedi gofyn i'r Prif Weithredwr fel Cadeirydd y Panel Rhiantu Corfforaethol i egluro statws ambr y dangosydd SCC / 041a - canran y plant perthnasol cymwys, a'r plant cymwys a oedd yn berthnasol, sydd â chynlluniau llwybr fel sy'n ofynnol. Nodwyd y pwynt gan y Pwyllgor.
- Mynegwyd pryder gan Aelod ynghylch y ffaith bod SCA / 01b yn parhau i ddangos yn goch - y ganran o ofalwyr ar gyfer oedolion a oedd wedi cael asesiad neu adolygiad o'u hangenion yn ystod y flwyddyn. Nododd y Pwyllgor y pwynt a wnaed ond ychwanegodd bod eglurhad ar y sefyllfa wedi ei ddarparu yn y cyfarfod diwethaf. Cadarnhaodd y Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes bod perfformiad wedi gwella yn Chwarter 2 fel y nodwyd yng nghorff yr adroddiad.
- Mynegwyd anesmwythyd a gofynnwyd am eglurhad ynghylch pam roedd HHA / 017a yn dangos yn goch - nifer y dyddiau yr oedd teuluoedd digartref gyda phlant wedi eu treulio mewn llety gwely a brecwast ar gyfartaledd. Dywedodd y Swyddog Opsiynau Tai a oedd wedi cael gwahoddiad i ddod i'r Pwyllgor fod y Dangosydd hwn yn cyfeirio at aelwydydd digartref ac nid yw'n cynnwys teuluoedd digartref gyda phlant sydd wedi eu lleoli mewn llety hunanarlwyo dros dro yn hytrach na llety gwely a brecwast. Nododd y Pwyllgor felly fod y geiriad yn gamarweiniol. Esboniwyd bod hwn yn ddangosydd cenedlaethol ac nad oedd modd newid y geiriad felly. Cytunwyd o'r herwydd i gynnwys nodyn o eglurhad gyda'r dangosydd i egluro'r sefyllfa mewn perthynas â theuluoedd a phlant digartref.
- Gofynnwyd am sicrwydd bod uwch reolwyr yn rhoi sylw i Ddangosydd 9 dan y pennawd Rheoli Pobl mewn perthynas â'r ganran o ADP a gwblhawyd o fewn yr amserlen.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch statws coch y Prosiect Hamdden. Dywedodd y Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes nad yw'r prosiect hyd yma wedi cael mandad gan y Bwrdd Prosiect.

**Penderfynwyd nodi -**

- **Y meysydd y mae'r Uwch Dimau Arweinyddiaeth yn llwyddo i sicrhau gwelliannau ynddynt i'r dyfodol fel yr amlinellir ym mharagraffau 4.1.1 i 4.1.6**
- **Eglurhad y Swyddogion a'r Aelod Portffolio ar y meysydd pryder y dygwyd sylw atynt gan y Pwyllgor yn ystod y drafodaeth i'w cyfathrebu i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 1 Rhagfyr.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI:**

- **Mewn perthynas â HHA / 017a, bod y Rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes yn cynnwys nodyn o eglurhad ar gyfer y Dangosydd mewn perthynas â Theuluoedd a Phlant Digartref.**
- **Mewn perthynas â Dangosyddion 3 a 400 dan y pennawd Rheoli Pobl, bod y rheolydd Rhaglen a Chynllunio Busnes yn darparu data erbyn Chwarter 3 ar gyfer absenoldebau salwch tymor byr a thymor hir 2013/14.**
- **Mewn perthynas â Dangosydd 29 dan y pennawd Rheoli Perfformiad, bod y Cyfarwyddwr Dysgu'n darparu data mewn perthynas â nifer y prentisiaethau a gafodd eu creu dan y cynllun Prentisiaeth Menai erbyn Chwarter 3.**

**5 MONITRO'R GYLLIDEB – CHWARTER 2 2014/15 – Y GYLLIDEB GYFALAF**

Cyflwynwyd i sylw 'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro ar y sefyllfa mewn perthynas â'r gyllideb gyfalaf ar ddiwedd Chwarter 2 2014/15.

DRAFT

Roedd crynodeb o’r gwariant yn erbyn y gyllideb hyd at ddiwedd Medi 2014 wedi ei atodi yn Atodiad B ac roedd rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2014/15 wedi ei hatodi yn Atodiad C.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ar y broses dendro a holodd a oedd trefniadau wedi eu gwneud i sicrhau bod gwaith a wnaed dan dendrau a ddyfarnwyd yn rhoi gwerth am arian. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro fod raid i’r holl wasanaethau gyflwyno cais manwl am gyllid cyfalaf gan gynnwys gwybodaeth am wariant a ragwelir a ffynonellau eraill o gyllid. Mae disgwyliad o’r cychwyn y byddai dadansoddiad manwl yn cael ei ddarparu ynghylch pa waith fydd yn cael ei wneud a sut y caiff ei gyllido. Mae’r Cyfrifydd Cyfalaf a’r Adran Gwasanaeth berthnasol yn monitro prosiectau wrth iddynt fwrw ymlaen. Mae’r manylion y tu ôl i’r ffigyrau ar gael i’r Aelodau fel unigolion neu fel pwyllgor yn amodol ar gyfyngiadau fel y bydd angen.

Holodd y Cadeirydd a oedd DP 16, 17 a 18 o dan Rheolaeth Ariannol ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn berthnasol fel ffynhonnell gwybodaeth yng nghyswllt y mater o gyllid ar gyfer gwaith cyfalaf a sicrhau gwerth am arian. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg Dros Dro y bydd y Gwasanaeth Cyllid yn darparu’r data i boblogeiddio’r Dangosyddion hynny.

Holodd y Cadeirydd a oedd unrhyw ddarpariaeth wedi ei gwneud yn y rhaglen gyfalaf gyfredol ar gyfer y prosiect gweithio’n gallach. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro mai cynnig oedd y prosiect gweithio’n gallach a fwriadwyd i’w weithredu o fis Ebrill nesaf ymlaen ac felly bydd yn dod o dan yr adroddiad monitro cyllideb gyfalaf am y cyfnod cyfatebol yn 2015/16. Mae’r cynnig ar hyn o bryd yn mynd drwy’r broses o gael caniatâd democrataidd ac y mae gwariant ar y prosiect wedi ei gynllunio ar gyfer 2015/16.

**Penderfynwyd nodi’r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH**

## 6 MONITRO'R GYLLIDEB - CYLLIDEB REFENIW CHWARTER 2 2014/15

Cyflwynwyd i ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro yn amlinellu’r sefyllfa ar wariant refeniw y Cyngor ar ddiwedd Chwarter 2 2014/15, y sefyllfa oedd yn cael ei rhagamcanu ar gyfer y flwyddyn gyfan a hefyd y prif wahaniaethau.

**Penderfynwyd nodi’r wybodaeth a gyflwynwyd heb unrhyw sylw.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH**

## 7 CYNIGION AR GYFER CYLLIDEB REFENIW 2015/16

Yr eitem wedi ei dynnu yn ôl.

## 8 DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN DRAWSNEWID

Penderfynwyd gohirio ystyried yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

## 9 CAU ALLAN Y WASG A’R CYHOEDD

Penderfynwyd dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

## 10 CYTUNDEBAU BYSIAU YSGOL - TENDRAU A STRWYTHUR TALIADAU

Cyflwynwyd i sylw’r Pwyllgor adroddiad y Swyddog Addysg Uwchradd yn amlinellu newidiadau arfaethedig i'r tendrau bws ysgol a’r strwythur taliadau. Roedd yr adroddiad yn nodi'r materion sydd angen cael sylw fel rhan o’r broses ail-dendro, a hefyd y cynigion i gyflwyno'r polisi dim pas, dim teithio i’r holl ddisgyblion; hefyd y cynnydd mewn taliadau yn unol â chostau gwirioneddol a rhesymoli gwasanaethau bysiau anstatudol.

Dywedodd y Swyddog Addysg Uwchradd beth oedd y rhesymeg dros gyflwyno y polisi dim pas dim teithio fyddai’n ei gwneud yn haws i’r Awdurdod Addysg sicrhau’r trefniadau iechyd a diogelwch o ran gallu darparu rhestr o deithwyr mewn amgylchiadau lle bo angen hynny. O ran y taliadau, eglurodd y Swyddog y bydd y contractau newydd ar gyfer teithio ar y bws yn parhau i gynnwys newidiadau blynyddol ar gyfer chwyddiant i’r adran. Tra bod yr adran hyd yn hyn wedi

DRAFT

gallu derbyn y costau hyn heb gynyddu'r gost i'r teithiwr, mae'r sefyllfa ariannol bresennol yn ei gwneud yn anodd i gadw'r sefyllfa hon. Cyfeiriodd at y strwythur codi tâl presennol o'i gymharu â'r sefyllfa mewn siroedd eraill ac ehangodd ar yr opsiynau dros newid a'u goblygiadau refeniw. Mewn perthynas â darparu gwasanaethau bws anstatudol, dywedodd y Swyddog mai'r bwriad yw stopio darparu'r gwasanaethau anstatudol oedd i'w weld yn yr adroddiad ac sydd yn seiliedig ar drefniadau hanesyddol ac nad ydynt yn unol â pholisi cludiant presennol y Cyngor. Byddai hyn hefyd yn sicrhau cysondeb o ran cyfle i'r holl deuluoedd ar draws yr Ynys nad ydynt yn cael dewis darpariaeth o'r fath ar hyn o bryd.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r cynigion gan geisio cael sicrwydd ynglŷn â'r materion a ganlyn:

- Na fyddai'r cynnydd arfaethedig yn y taliadau yn anfanteisio'r disgyblion o ardaloedd difreintiedig. Cadarnhaodd y Swyddog Addysg Uwchradd bod system o gefnogaeth ar gael i deuluoedd tlotach o dan y Lwfans Cynhaliaeth Addysgol ar gyfer y rhai mewn addysg bellach. Bydd asesiad effaith ac ymgynghori llawn yn cael ei gynnal gyda chydranddeiliaid er mwyn sicrhau na fydd unrhyw rhieni/disgyblion/ysgolion yn dioddef eu hanfanteisio a bod system dalu deg yn cael ei chyflwyno.
- Y bydd elfen o ddiogelwch er mwyn sicrhau na fydd disgyblion sy'n colli eu tocyn teithio yn cael eu rhwystro rhag derbyn gwasanaeth bws ac y bydd eu diogelwch yn cael ei sicrhau bob amser. Dywedodd y Swyddog Addysg Uwchradd y bydd angen sefydlu trefniadau dros dro digonol i ddisgyblion sydd wedi colli eu pasys.
- Trefniadau ar gyfer monitro gweinyddu'r system. Dywedodd y Pennaeth Dysgu mai'r ffordd ymlaen oedd yn cael ei ffafrio yw symud tuag at system electronig e.e. trwy ymestyn y system Squid o dalu am brydau ysgol lle mae taliadau'n cael eu gwneud ar-lein neu trwy drefnu system dalu debyd uniongyrchol.
- Yr angen i hysbysu'r rhieni, disgyblion a'r llywodraethwyr ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn deall yn llawn yr hyn y mae yn ei olygu a pha gefnogaeth sydd ar gael. Cadarnhaodd y Swyddog Addysg Uwchradd bod gwaith yn cael ei wneud gyda swyddogion lles a grwpiau cefnogi e.e. y Tîm o Amgylch y Teulu i hysbysu rhieni a theuluoedd am eu hawliau.
- Yr angen i gynnal asesiad risg mewn perthynas â'r bwriad i ddiweddu'r gwasanaethau anstatudol fel a nodwyd yn yr adroddiad. Dywedodd y Swyddog Addysg Uwchradd mai hynny fyddai'r cam cyntaf yn y broses.

**Penderfynwyd –**

- **Cefnogi cyflwyno polisi dim pas, dim teithio i'r holl ddisgyblion (ataliodd y Cynghorydd A. Griffith ei phleidlais)**
- **I gefnogi cynyddu'r taliadau yn unol â chostau gwirioneddol o Medi 2015 yn unol ag Opsiwn 2 yn yr adroddiad.**
- **I roi cefnogaeth i beidio â pharhau gyda'r gwasanaethau bws anstatudol o fis Medi 2015 fel cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad, yn amodol ar gwblhau asesiad risg o'r llwybrau teithio dan sylw.**

**DIM CAMAU PELLACH YN CODI.**

## 11 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Penderfynwyd dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 12 CWRS GOLFF LLANGEFNI

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol ynglŷn ag opsiynau datblygu Cwrs Golff Llangefni yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad a'r dogfennau cefnogol yn delio ag agweddau mewn perthynas â'r gwasanaeth cyfredol, gwerthusiad o opsiynau

DRAFT

trawsnewid y ddarpariaeth o wasanaeth posibl yn y dyfodol ac argymhellion ar sut i symud ymlaen. Roedd rhestr hir o chwech o opsiynau oedd wedi eu nodi a dadansoddiad ohonynt yn cael eu rhoi ymlaen fel sail ar gyfer eu hymchwilio ymhellach.

Rhoddodd y Deilydd Portffolio Datblygu Economaidd, Twristiaeth a Hamdden a'r Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol adroddiad ar y cefndir, y cyd-destynau strategol a lleol, y cyd-destun ariannol o gyllid cyhoeddus yn lleihau a hefyd yr angen i sicrhau arbedion caled ynghyd â'r ystyriaethau a risgiau oedd ynglŷn â cheisio sicrhau trawsnewid y gwasanaeth.

Rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad ar y prif faterion a'r casgliadau o safbwynt yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Adnoddau) Dros Dro am y sefyllfa o safbwynt refeniw a chyfalaf a chadarnhaodd bod y gofynion ar y rhaglen gyfalaf eisoes yn drwm iawn.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth ofalus i'r wybodaeth a gyflwynwyd gan geisio cael eglurhad gan y Deilydd Portffolio a Swyddogion ynglŷn â beth yr oedd yr opsiynau oedd yn yr adroddiad yn ei olygu a goblygiadau o ran darparu gwasanaeth ac ymarferoldeb a hefyd o safbwynt ymrwymiadau cyllido. Yn dilyn ystyried a gwerthuso'r opsiynau, ystyriodd y Pwyllgor ddau opsiwn pellach y manylwyd arnynt ac a roddwyd ymlaen gan Aelodau unigol o'r Pwyllgor fel opsiwn 7 (cyfuno elfennau o opsiwn 4b a 6 yn yr adroddiad) ac Opsiwn 8 (amrywiad ar Opsiwn 7) a chytunwyd i ychwanegu'r rhain i'r rhestr hir o opsiynau i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd nodi adroddiad y Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol a'r 6 Opsiwn a gyflwynwyd ynddo a bod y ddau opsiwn ychwanegol a ffurfiwyd ac a gytunwyd gan y Pwyllgor - Opsiynau 7 a 8 - yn cael eu hychwanegu i'r rhestr hir o opsiynau i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI.**

**Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I :** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **13 Ionawr 2015** |
| **PWNC:** | **Adroddiad Dadansoddol – Ansawdd Gwaith Asesu Craidd – Gwasanaethau Plant** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Ken Hughes** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br><br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Huws, Pennaeth Gwasanaeth**<br><br>**Swyddog Arweiniol - Laura Grant Hughes, Rheolwr Sicrwydd Ansawdd, Gwasanaethau Plant**<br>**LauraGrantHughes@anglesey.gov.uk**<br>**Estyniad 1934** |

**1.0 ARGYMHELLION**

A1- Bod y pwyllgor Sgriwtini yn nodi trefniadau'r gwasanaeth a'i ddadansoddiad o berfformiad ac ansawdd mewn perthynas â chynnal Asesiadau Craidd, ynghyd â'r camau gwella sydd mewn lle.

**2.0 RHESYMAU**

2.1 Mae gan y Gwasanaeth Plant weithdrefn ynglŷn â sut y mae'n disgwyl i Asesiadau Craidd gael eu cwblhau; mae hyn yn ei gwneud yn glir beth a ddisgwylir gan ymarferwyr unigol ac yn cydymffurfio â'r Fframwaith ar gyfer Asesu plant mewn Angen a'u Teuluoedd (y Fframwaith Asesu) sy'n darparu cyfarwyddyd i weithwyr proffesiynol a staff eraill fydd yn cymryd rhan mewn gwneud asesiadau o blant mewn angen a'u teuluoedd.

2.2 Mae hyfforddiant a goruchwyliaeth wedi ei ddarparu fel y gall gweithwyr cymdeithasol ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn perthynas â'r maes ymarfer hwn.

2.3 Mae'r Gwasanaeth Plant wedi mabwysiadu Fframwaith Risg sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac y mae staff wedi derbyn hyfforddiant ar y Fframwaith.

2.4 Mae gan y Gwasanaeth Plant Fframwaith Sicrwydd Ansawdd sydd yn helpu'r gwasanaeth i nodi ac i sicrhau gwelliannau o ran ymarfer. Mae cryn waith wedi ei gynnal mewn perthynas â'r maes asesu craidd fel y gwelir yn yr adroddiad sydd wedi ei atodi. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y gwelliannau canlynol:-

- Adolygu’r ddogfen Asesiadau Craidd er mwyn cefnogi ymagwedd dadansoddol wedi ei selio ar dystiolaeth
- Parhau i wreiddio Teclynnau Risg mewn modd cynhwysfawr a phwrpasol.
- Parhau i gefnogi ymarfer trwy hyfforddiant, mentora a goruchwyliaeth.
- Sicrhau bod Asesiadau Craidd yn ystyried cynnal asesiadau rhiantu cynnar sy’n ymgorffori mewnbwn gan bartneriaid amlasiantaethol.
- Dylai’r Grŵp Craidd Amlasiantaethol gymryd perchenogaeth o’r Asesiadau Craidd a’u defnyddio i nodi ffactorau risg blaenoriaeth sydd angen sylw amlasiantaethol.

2.5 Mae gan y Gwasanaeth Plant drefniadau yn eu lle ar gyfer Rheoli Perfformiad ac y mae’n gallu tystiolaethu i welliannau sylweddol o ran yr amser a gymerir i wneud asesiadau craidd yn erbyn dangosyddion perfformiad.

Awdur: Laura Grant Hughes
Teitl Swydd: Rheolwr Sicrwydd Ansawdd, Gwasanaethau Plant

Dyddiad: 14 Tachwedd 2014

| ATODIAD 1 – Adroddiad gan y Rheolwr Sicrwydd Ansawdd |
|---|

# Trosolwg:

# Asesiad Craidd

# 2013 / 14

# Gwasanaethau Plant

# Ynys Môn

Cynnwys:

Byrfoddau

1.0 Cyflwyniad

2.0 Cefndir – Beth yw Asesiad Craidd?

3.0 Amseroldeb Adroddiad Asesu Craidd

4.0 Proses Asesu Craidd

5.0 Canfyddiadau a Dadansoddiad Adroddiad Ffynhonnell

6.0 Crynodeb Dadansoddiad a Chasgliad

7.0 Argymhellion.

Byrfoddau:

- Gwasanaethau Plant Ynys Môn – **IACS**
- Dangosydd Perfformiad - **PI**
- Cynhadledd Diogelu Plant – **CPC**
- Plant y Gofelir Amdanynt – **LAC**
- Diogelu Plant – **CP**
- Plant mewn Angen – **CIN**
- Sicrwydd Ansawdd – **QA**
- Fframwaith Sicrwydd Ansawdd – **QAF**
- Tim Rheoli'r Gwasanaethau Plant – **CSMT**
- Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaethau Plant – **SMT**
- Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan (2008) - **AWCPP**

1.0 Cyflwyniad:

Gofynnodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'r Pennaeth Gwasanaeth ddarparu trosolwg ac adroddiad ar gynnydd mewn perthynas ag amseroldeb ac ansawdd asesiadau craidd.

2.0 Beth yw Asesiad Craidd?

Mae'r Cyfarwyddyd Fframwaith ar gyfer Asesu yn dweud bod yn rhaid i'r asesiadau cychwynnol a chraidd gael eu gwneud o fewn cyfnodau amser penodol.

2.1 Proses Asesu Craidd:




["*clockwise*"]
Capasiti Rhiantu
Gofal Sylfaeno
Sicrhau Diogelwch
Cynhesrwydd Emosiynol
Ysgogiad
Cyfarwyddyd a Therfynau
Sefydlogrwydd
Hanes Teuluoedd a Gweithrediad
Teulu Ehangach
Tai
Cyflogaeth
Incwm
Integreiddiad Cymdeithasol y Teulu
Adnoddau Cymunedol
Sgiliau Hunanofal
Cyflwyniad Cymdeithasol
Perthnasau Teulu a Chymdeithasol
Identiti
Datblygiad Emosiynol ac Ymddygiadol
Addysg
Iechyd

Anghenion Datblygiadol y Plentyn (*chwith*)
Diogelu Plant a Hyrwyddo Lles (*canol*)
Ffactorau Teulu ac Amgylcheddol (*gwaelod*)
Capasiti Rhiantu (*dde*)

2.2 Arfer Dda wrth Asesu:

Yn ôl Gweithdrefnau Plant Cymru Gyfan:
'*Serious case reviews frequently highlight the importance of assessment and analysis. Assessment is the process by which information is collected, collated and analysed. Effective assessment seeks overall patterns that explain what has happened to a child and provides a framework for understanding and analysing need, risk and the danger individuals pose for children. Particular care needs to be taken that assessments do not become over optimistic or minimise risk to children. The focus needs to be on gathering evidence to make judgements about whether a child is safe from injury, neglect, and emotional or sexual abuse'* (Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan, 2008)

2.3 Yn ôl Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan :-

i) 'A core assessment must be started for each child who is the subject of child Protection section 47 enquiries; both commence at the same time.

ii) The purpose of the core assessment is to enable sound professional judgements to be made about how best to intervene to safeguard and promote a child's welfare.

iii) The core assessment should be completed within 35 working days. It should build on all the information obtained in the course of the initial assessment and the section 47 enquiries. It should provide evidence on which to base judgements and plans on how best to safeguard a child, promote his or her welfare and support parents in promoting their children's welfare.

iv) The core assessment is the responsibility of all professionals who are members of the core group and this responsibility will be reflected in their full contribution to the process.


*v) The core assessment will include an analysis of:*


- The child's developmental needs;
- The parents' capacity to respond to those needs, including the parents'ability to ensure that the child is safe from harm;
- The wider circumstances of the family.

vi) The assessment will take into account the ethnic and cultural needs of the child and family. The family should be encouraged and enabled to participate in the assessment and the allocated social worker should explain the process throughout'. (Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan, 2008)

3.0 Cwblhau Asesiad Craidd o fewn y Cyfnod Amser:

Ar y cyfan rydym wedi gwella ein perfformiad yn y ddau faes ers 2010/11.




3.1 Cynnal Asesiadau SMART: gyda phwrpas clir o fewn cyfnod amser digonol, sydd wedi ei gynllunio a'i gytuno; yn cynnwys cymryd camau penodol, gyda diweddariadau amserol fydd wedi eu cofnodi'n glir.

Bydd asesiadau, yn arbennig Asesiadau Craidd, yn cael eu gwneud ar gyfer y rhan fwyaf o'r achosion a gyfeirir at y Gwasanaethau Plant. Fodd bynnag, er bod canfyddiadau mewn adroddiadau wedi amlygu bod perfformiad yn erbyn targedau yn uchel, mae sicrwydd ansawdd mewnol ac allanol wedi nodi nad yw'r rhesymau dros gynnal yr asesiadau bob amser wedi eu cytuno'n glir, eu cofnodi yn ystod goruchwyliaeth neu eu dogfennu o fewn yr asesiad. Mae diffyg ffocws ynghylch pwrpas yr asesiad yn lleihau eglurder a ffocws yr asesiad sydd wedyn yn debygol o gael effaith ddilyniadol ar gynllunio ac ymyraethau gyda'r teulu. Unwaith yn rhagor, gallai'r diffyg pwrpas i'r asesiad dynnu oddi wrth y ffocws ar y teulu penodol, ac felly ddod yn rhwystr i ymgysylltu gyda theuluoedd. Ymhellach i hyn, os nad yw pwrpas yr asesiad yn glir yna fe allai hyn yn bendant gael effaith ar ddiweddaru'r asesiad yn ddigonol ac yn fwy felly os caiff yr achos ei drosglwyddo i weithiwr gwahanol mewn tîm. Mewn rhai achosion, dywedir bod y diffyg eglurder ynglŷn â phwrpas y broses asesu yn creu agwedd 'dechrau eto' lle nad yw teuluoedd unwaith yn rhagor yn glir ar ba elfennau o ofal sy'n ddigonol, beth sy'n gweithio'n dda a pha elfennau sydd angen eu gwella ac/neu eu newid. Yn anorfod, bydd y diffyg o ran asesiadau clir ac amserol yn ystumio ac yn oedi gallu gwneud penderfyniadau priodol, cynllunio ac ymyrryd.

4.0 Y Broses Asesu Craidd:

Mae gan GPYM weithdrefnau yn eu lle sy'n cydymffurfio â'r fframwaith asesu ac sydd yn unol â GDPCG 2008; ac mae'r gwasanaeth yn y broses o ddatblygu cyfarwyddyd penodol sydd yn unol â'r safonau ansawdd sydd eu hangen ar gyfer Asesu Craidd.

5.0 Canfyddiadau a Dadansoddiad yr Adroddiad Ffynhonnell:

Mae'r gwasanaeth wedi gwneud nifer o weithgareddau sicrwydd ansawdd i roi gwybodaeth ar gyfer ei ddealltwriaeth o ansawdd yr asesiadau o fewn y gwasanaeth. Bu asesu yn faes a nodwyd mewn nifer o adroddiadau archwilio mewnol ac allanol fel agwedd o waith oedd angen ei wella. Nodwyd bod dadansoddiad, cydran hanfodol o asesu sy'n rhoi gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn adroddiadau ffynhonnell Mewnol, yn faes blaenoriaeth ar gyfer canolbwyntio arno. O ganlyniad, gwnaed y gwelliannau sylweddol gyda dadansoddi asesiadau, yn arbennig o safbwynt dadansoddi asesiadau cychwynnol a chraidd (adroddiad ffynhonnell: adroddiad archwilio gwasanaeth gan y Rheolwr Sicrwydd Ansawdd). Roedd archwiliadau cynnar yn nodi bod y dadansoddiad yn cael ei gyflwyno cyn hynny fel crynodebau o'r asesiad, er eu bod wedi gwella i'r graddau eu bod yn awr yn canolbwyntio mwy ar y materion o gonsyrn, mewn perthynas â'r Fframwaith Asesu (gweler 4.1 Diagram Fframwaith Asesu) yn cynnwys, yr elfen o risg, ymgysylltiad rhieni a pharodrwydd i newid ffactorau amddiffynol. Mae'r ffocws ar elfennau perthnasol o'r asesiad yn beth cadarnhaol wrth ffurfio argymhellion ar gyfer y cynllunio a'r ymyrraethau a fwriedir gyda phlant a theuluoedd. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn unol â'n Fframwaith Sicrwydd Ansawdd (2001), wedi cefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau asesu, eu sail gwybodaeth a'u defnydd o'r cyfarwyddiadau sydd ar gael yn y Fframwaith ar gyfer Asesu. Rhoddwyd hyfforddiant a goruchwyliaeth i bob aelod staff.

Rydym wedi sicrhau bod hyfforddiant perthnasol :-
Wedi ei gysylltu i mewn i'r Cynllun Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol.
Wedi darparu hyfforddiant Asesiad 'Craidd' a 'Chychwynnol' gorfodol i holl weithwyr gwaith cymdeithasol y Gwasanaethau Plant.

Wedi sicrhau bod rheolwyr tîm ac Uwch Ymarferwyr yn mynychu'r hyfforddiant perthnasol cyn y staff gwaith cymdeithasol fel y gallant atgyfnerthu'r negeseuon allweddol o'r hyfforddiant perthnasol.

Yn fy marn i mae'r broses o gynllunio a gweithredu'r hyfforddi, cyfarwyddyd ar hyfforddi ac arolygu wedi galluogi i ni sicrhau (drwy ganfyddiadau archwiliad diweddar) gwelliant sylweddol o ran cyflwyno dadansoddiad o fewn asesiad cychwynnol a chraidd.

Rydym yn bwriadu parhau i ddilyn ein rhaglen wella yn 2014/15 trwy ddarparu hyfforddiant a chyfarwyddyd perthnasol o ansawdd dda. Ein nod yw parhau i sicrhau bod negeseuon allweddol yr hyfforddiant yn cael eu rhannu drwy'r broses oruchwylio; bod yna ffocws ar bwrpas yr asesiad, er mwyn cefnogi ymgysylltiad a dadansoddiad ystyrlon, a thrwy hynny roi gwybodaeth ar gyfer cynllunio ac ymyrraeth.

Mae adroddiadau ffynhonell yn argymell y dylid cynnal Asesiadau Craidd cynnar, Asesiadau Risg ac Asesiadau Rhiantu mor fuan ag sy'n bosibl ac y dylent ganolbwyntio ar y rhesymau dros gysylltiad y gwasanaeth a chapasiti rhiant i wella eu rhiantu er mwyn lleihau risg. Mae yna feysydd yn parhau lle mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio; yn cynnwys cynllunio effeithiol ac ymyrraethau gyda phlant a theuluoedd. Er enghraifft, er bod yn rhaid i ni gydnabod y gwelliannau yn ein dealltwriaeth o ddadansoddi, nid oes ddigon o groesgyfeirio at gynnwys gwirioneddol yr asesiad corfforaethol sy'n rhoi gwybodaeth ar gyfer cynllunio achos wedi hynny, at ymyrraethau a goruchwylio achosion. Yn arbennig rydym ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar:

5.1 Y Ddogfen Asesu Craidd:

Mae'r ddogfen Asesu Craidd presennol sydd yn cael ei gofnodi o fewn y system RAISE yn electronig yn ymdebygu i holiadur. Byddwn yn cytuno ag awgrymiadau o'r canfyddiadau yn y nifer o adroddiadau, bod y ddogfen yn hyrwyddo asesu plant unigol o fewn y teulu ond nid yw'n caniatáu ar gyfer gwneud asesiad cyffredinol o'r teulu cyfan. Natur y ddogfen hon yw ei bod ar ffurf holiadur a'i bod yn ailadroddus. Bydd asesiad ar wahân yn cael ei gwblhau ar bob plentyn o fewn y teulu. Er mai un o argymhellion GDPCG (2008) yw hyn, cofnodir asesiadau ar wahân i bob plentyn, yn hytrach na dod ar wybodaeth asesu at ei gilydd ac mae hynny'n creu rhwystr i allu asesu'r teulu fel uned a'r effaith y mae aelodau'r teulu yn ei gael ar y naill a'r llall (sydd, yn fy marn i yn Asesiad Craidd). Mae fformat y ddogfen yn rhwystro i'r gweithwyr cymdeithasol allu cyflwyno siwrnai'r plentyn.

Nid yw gosodiad y ddogfen yn caniatáu ar gyfer cofnodi risg yn ddigonol, na chronolegau na hanes teuluol, cynnwys cronolegau o ansawdd da, canolbwyntio ar faterion allweddol yn cynnwys y risg a hanes teuluol, pethau sy'n hanfodol i allu

gwneud asesiad effeithiol a phenderfyniadau da yn ogystal â rhwystro ymyraethau 'dechrau eto'. Mae gwybodaeth ynglyn â hanes teuluol o fewn cronolegau yn rhoi pictiwr llawer cliriach o ymddygiad rhieni a'u capasiti, y lefel o risg i blant ac amlder digwyddiadau mewn perthynas â chategorïau o gam-drin. Yn ychwanegol i hyn, nid yw'r ddogfen gyfredol yn gefnogol i asesiad cydlynus o asesiad craidd asiantaethau partner, un cydran hanfodol o'r asesiad 'Sail'.

5.2 Y defnydd o Genogramau (coeden deulu) i gefnogi dadansoddiad:

Mae'r gwasanaeth yn diweddar wedi buddsoddi mewn cael rhaglen sy'n galluogi i ni gynhyrchu genogram i'w chynnwys yn y ddogfen gyfredol ac mewn unrhyw ddogfen arall. Hyd yn hyn ymddengys bod y rhaglen yn cydfynd â'n system bresennol. Mae gweithiwyr cymdeithasol yn cael eu hannog i gynnwys genogramau o fewn yr holl asesiadau (boed y rhain yn cael eu cynnwys drwy raglen neu yn cael eu hysgrifennu â llaw ac wedyn eu sganio). Mae cynhyrchu genogramau ar gyfnod cynnar yr asesiad, yn arbennig asesiad craidd, yn ei gwneud yn bosibl i'r gweithiwr cymdeithasol ymgysylltu â'r teulu, cael dealltwriaeth o ddeinameg y teulu a hefyd adeiladu pictiwr o sut y mae deinameg y teulu yn effeithio ar y naill a'r llall a sut y mae amrywiol ymddygiadau/gweithgareddau'n cael effaith ar aelodau'r teulu. Mae'n debygol iawn y caiff gweithwyr cymdeithasol wybodaeth gan y rhieni os rhoddir cyfle i'r rhiant helpu gyda llunio'r genogram. Maent hefyd yn bethau pwysig sy'n gallu (fel cronolegau) ddarparu darlun o'r gwahanol aelodau o'r teulu all o bosibl greu risg i'r plentyn ac sy'n achosi pryder. Mae gweithwyr cymdeithasol yn cael eu hannog ar hyn o bryd gan reolwyr tim i weithio gyda theuluoedd i gynhyrchu'r genogram.

5.3 Canolbwyntio ar reoli risg fel rhan o'r asesiad:

Yn gyffredinol, ymddengys bod Asesiadau Craidd yn canolbwyntio ar ganlyniadau lles yn hytrach nag ar risgiau blaenoriaeth ac arwyddion o ddiogelwch. Efallai bod hynny oherwydd bod ymarferwyr yn tueddu i geisio rhoi sylw i holl gydrannau'r Fframwaith Asesu, yn hytrach nag asesu'r ffactorau risg. Mae natur yr asesiad hwn yn tynnu i ffwrdd o'r ffocws ar risg, er mai risg, mewn sawl achos, yn arbennig felly mewn perthynas ag achosion diogelu plant, yw'r prif reswm pam mae'r Gwasanaethau Plant a'r gwasanaethau amlasiantaethol yn ymwneud â theuluoedd.
Yn ystod y 6 mis diwethaf mae'r Gwasanaethau Plant wedi ymwreiddio'r defnydd o declynnau asesu, sef Risg 1 a Risg 2. Er enghraifft, mae teclyn asesu Risg 1 wedi ei gyflwyno o fewn sesiynau Goruchwylio i hwyluso ffocws a thrafodaeth ar elfennau risg a blaenoriaethu achosion. Mae teclyn Risg 2 wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad ar gynadleddau achos (Cynadleddau Achos Cychwynnol a Chynadleddau Adolygu fel ei gilydd). Mae hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r teclyn hwn wedi ei ymgorffori yn y rhaglen hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Mae ymgorffori'r teclynnau risg hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran

- Canolbwyntio ar 'risg'
- Ymarferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddwyn sylw at welliannu neu ddirywiad mewn meysydd sy'n achosi pryder a theuluoedd.

Fodd bynnag, er bod cyflwyno'r teclynnau hyn wedi bod yn gam cadarnhaol, mae'r adroddiadau ffynhonnell yn dangos tueddiad i roi gormod o bwyslais a dibyniaeth ar y teclynnau hyn, yn ogystal â theclynnau 'sylfaenol' eraill wrth asesu sefyllfaoedd cymhleth yn fwy trwyadl. Er enghraifft, mae angen teclyn asesu mwy cynhwysfawr a thrwyadl ar gyfer asesu camdriniaeth rywiol. Er bod teclynnau Risg 1 a 2 yn rhai o safon dda; rhai sylfaenol yn unig ydynt y dylid eu defnyddio yn ystod cyfnodau cychwynnol yr asesiad h.y. i hwyluso cyfeiriad yr achos. Bydd y gwasanaeth yn parhau i wreiddio'r fframwaith risg yn ei arferion.

5.4 Asesiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth:

Asesiadau yw' r rhain sy'n rhoi gwybodaeth i ddangos neu ddwyn sylw at y status quo; er enghraifft mae asesiadau Risg 1 a 2 yn caniatáu ar gyfer nodi gwelliannau neu ddirywiad o ran anghenion y plentyn a'r capasiti rhiantu. Mae yna nifer o declynnau asesu ar gael i weithwyr cymdeithasol yn y Gwasanaethau Plant. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod gweithwyr cymdeithasol yn cael yr hyfforddiant priodol o ran sut a pha bryd i ddefnyddio'r teclynnau hyn. Mae casgliadau adroddiadau wedi dangos bod angen cynyddu dealltwriaeth asiantaethau partner o'r teclynnau risg a chynllunio ar sail amlasiantaethol ar gyfer pa bryd y dylid defnyddio teclynnau o'r fath. Rydym yn awyddus i sefydlu pa bryd y dylid defnyddio'r teclynnau hyn a chan bwy. Er enghraifft, mae adroddiadau wedi dangos ein bod yn llai llwyddiannus ???.

5.5 Rôl partneriaid ac asiantaethol:

Ychydig o dystiolaeth sydd bod asiantaethau eraill yn cynnal asesiadau ar y cyd; er enghraifft mae asesiadau rhiantu wedi eu gwneud yn unig gan y Gwasanaethau Plant. Gellid gwella'r broses hwn trwy gynnwys y gwasanaethau oedolion e.e. mewn achosion lle mae materion Iechyd Meddwl ymysg oedolion a phroblemau Camddefnyddio Sylweddau yn cael effaith ar gapasiti rhiantu.

5.6 Nodi capasiti rhieni a'r gallu i newid/gwella:

Mae cynnal asesiad cynnar o'r hanes rhiantu a'r capasiti i newid yn rhan hanfodol o'r broses asesu. Oni chynhelir asesiad o'r fath nid oes gwybodaeth hollbwysig ar gael i fedru cynllunio'n briodol yn seiliedig ar ganlyniadau a thargedu cynlluniau i helpu a chael effaith gadarnhaol o ran gwella/newid gallu rhieni i ofalu am y plant dan sylw. Yn aml rydym wedi gweld rhieni sydd wedi mynychu nifer o raglenni rhiantu. Er ei fod yn beth cadarnhaol bod rhieni'n ymgysylltu ac yn mynychu'r rhaglenni hyfforddiant mae adroddiadau yn dangos nad ydym mor llwyddiannus o ran mesur effaith rhaglenni o'r fath h.y. ydynt wedi cael unrhyw ddylanwad ac effaith gadarnhaol ar riantu ai peidio? Os ydynt, pam fynd ati i gofrestru rhieni ar gyfer rhaglen rianta arall, ac os nad ydynt, pam na ellir dod o hyd i gynllun gwahanol ar eu cyfer? Mae casgliadau adroddiadau wedi dangos bod yr ymagwedd 'dechrau eto' hefyd yn wastraff o'r adnoddau prin sydd ar gael i'r gwasanaethau plant.

5.7 Ymgorfforì gwybodaeth asesu mewn cynlluniau tymor byr a thymor hir sy’n seiliedig ar ganlyniadau:

Mae casgliadau adroddiadau wedi dangos, er gwaethaf ein bod yn effeithiol o ran ymateb i ddigwyddiadau a llunio cynlluniau tymor byr, rydym yn llai llwyddiannus o ran sefydlu cynlluniau tymor hir sydd yn seiliedig ar amrywiaeth o asesiadau parhaus.

Mae adroddiadau ffynhonnell hefyd wedi dangos nad ydym yn gwneud defnydd digonol o gasgliadau asesiadau i sicrhau bod asesiadau yn cael eu defnyddio ar gyfer cynllunio ???? o fewn amserlenni. Er enghraifft, mae nodi diffygion o ran capasiti rhianta yn ystod Asesiadau Craidd yn elfen benodol a nodwyd fel gwendid mewn nifer o’r casgliadau; byddai ymateb yn effeithlon i’r agwedd hon ar gasgliadau Asesiadau Craidd yn golygu y gellir nodi a fyddai angen asesiad penodol o Gapasiti Rhianta a pha bryd y dylid ei wneud. O ran cofrestru plant mae adroddiadau wedi dwyn sylw at achosion lle mae enwau plant wedi eu cofrestru am gyfnod estynedig (hyd at 2 flynedd). Ni chafwyd asesiad penodol amserol o gapasiti yn y rhan fwyaf o’r achosion nac asesiad o gapasiti rhianta. Mae’n rhaid i Wasanaethau Plant Ynys Môn fod yn rhagweithiol o ran nodi pa bryd y mae angen asesiadau rhiantu.

Mae argymhellion o adroddiadau ffynhonnell yn cynnig y dylai asesiadau nodi:

- Bod angen cynnal asesiadau penodol o gapasiti rhianta
- Bod angen cynnal Asesiadau Rhianta fel mater o flaenoriaeth, a chyn i’r plentyn gael ei eni mewn rhai achosion
- Dylai Asesiadau Craidd a Rhiantu lywio cynlluniau tymor byr a thymor hir

6.0 Crynodeb

Mae gan y Gwasanaethau Plant weithdrefn o ran sut mae’n disgwyl i Asesiadau Craidd gael eu cwblhau. Mae hyn yn egluro’r hyn sy’n ddisgwyliedig gan ymarferwyr unigol ac yn cydymffurfio gyda’r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd (y Fframwaith Asesu) sy'n rhoi arweiniad i swyddogion proffesiynol a staff eraill a fydd yn cynnal asesiadau o blant mewn angen a'u teuluoedd.

Rhoddwyd hyfforddiant a goruchwyliaeth fel bod modd i weithwyr cymdeithasol ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn perthynas â’r maes ymarfer hwn.
Mae'r Gwasanaeth Plant wedi mabwysiadu Fframwaith Risg sy’n seiliedig ar dystiolaeth ac y mae’r staff wedi eu hyfforddi arno.

Mae gan y Gwasanaeth Plant Fframwaith Sicrhau Ansawdd sydd yn cynorthwyo'r gwasanaeth i nodi a chyflawni gwelliannau mewn ymarfer.

Mae gan y Gwasanaeth Plant drefniadau ar gyfer Rheoli Perfformiad a gall dystiolaethu gwelliannau sylweddol o ran amseroldeb cynnal asesiadau craidd yn erbyn dangosyddion perfformio.

7.0 Argymhellion:

- Adolygu'r ddogfen Asesiadau Craidd.
- Parhau i wreiddio Teclynnau Risg mewn modd cynhwysfawr a phwrpasol.
- Parhau i gefnogi ymarfer trwy hyfforddiant, mentora a goruchwyliaeth.
- Sicrhau bod Asesiadau Craidd yn ystyried cynnal asesiadau rhiantu cynnar sy'n ymgorffori mewnbwn gan bartneriaid amlasiantaethol.
- Dylai'r Grŵp Craidd Amlasiantaethol gymryd perchenogaeth o'r Asesiadau Craidd a'u defnyddio i nodi ffactorau risg blaenoriaeth sydd angen sylw amlasiantaethol.